

Buddion...



Facebook yw'r safle rhwydweithio cymdeithasol mwyaf poblogaidd yn y byd, gyda dros 1 biliwn defnyddiwr, 1 o bob 7 o'r boblogaeth. Mae'n helpu unigolion i gadw mewn cysylltiad ag eraill neu leddfu unigedd, ac yn arf marchnata ar gyfer llawer o fusnesau.

■ 1. Cysylltu â ffrindiau

Gostwng teimladau o unigedd. Os, am unrhyw reswm, nad ydych yn gallu symud o gwmpas, mae Facebook yn hwyluso sgwrsio a chysylltu â ffrindiau, a theimlo'n rhan o bethau.

■ 2. Cael hyd i hen ffrindiau ysgol

Mae llawer o bobl ar Facebook. Os ydych wedi colli cysylltiad â ffrindiau ac am gael hyd iddynt, os byddant ar Facebook gallwch ailgysylltu'n hawdd.

■ 3. Rhannu gwybodaeth

Ar Facebook gallwch rannu lluniau, fideos, newyddion ac ati gyda ffrindiau. Gallwch reoli beth a phwy byddwch am rannu gyda nhw, a phobl eraill yn gallu rhannu gwybodaeth gyda chi.

■ 4. Hygyrchedd

Yn y gorffennol, gallai storiâu newyddion yn y papurau fod yn wythnos oed cyn eu cael mewn fformat digidol. Heddiw, wrth ddilyn ffynonellau newyddion ar Facebook gallwch eu cael yn syth.

■ 5. Diddordebau

Hoffi rygbi? Gallwch gael y newyddion diweddaraf ar dudalen Facebook Undeb Rygbi Cymru. Ac ymuno â grwpiau a chymryd rhan mewn trafodaethau ar unrhyw bwnc o ddiddordeb i chi.

■ 6. Rhwydwaith gwybodaeth

Mae tudalen Facebook ar gyfer unrhyw beth a phawb. Os am chwilio am rywbeth penodol ac angen cyngor, gallwch ysgrifennu (post) ar dudalen yn gofyn am wybodaeth. Gallai fod yn gyngor ar unrhyw bwnc, er enghraifft y cadeiriau olwyn gorau, neu os am ymuno â grŵp i drafod eich hoff raglen deledu. Mae pob math o bosibiliadau.

■ 7. Diogelwch

Bydd llawer yn poeni am golli preifatrwydd wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, ond mae Facebook yn cynnwys llawer o osodiadau diogelwch. Gallwch reoli pwy byddwch yn rhannu gwybodaeth gyda nhw, beth fydd eraill yn postio ar eich llinell amser a phwy fydd yn gallu cael hyd i chi.

Os yn anhapus gyda'r ffordd bydd rhywun yn eich trin, mae eu dileu fel ffrind yr un mor hawdd ag yw creu ffrind.

■ 8. Cadw'n saff

- Osgoi postio unrhyw beth na fydddech am rannu gyda ffrindiau a'r teulu. Cofiwch werthuso eich cyfrif Facebook a phob post.
- Osgoi rhoi lluniau ar eich proffil oni fyddwch yn gallu rheoli pwy fydd yn gallu eu gweld.
- Osgoi postio manylion personol fel rhif ffôn symudol, cyfeiriad, cynlluniau cymdeithasol etc oni fyddwch am i unrhyw un gael hyd i chi, unrhyw amser. Neu wybod pryd na fyddwch gartref.
- Google eich hun i weld sut mae eich enw neu fanylion yn cael eu defnyddio.